O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2009 Rhif 631 (Cy. 57)(C.43)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2009

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn dod â darpariaethau Adran 147 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p.14) (a darpariaethau cysylltiedig) i rym ar 6 Ebrill 2009. Mae adran 147 yn symud ymaith atebolrwydd priod neu riant i gyfrannu tuag at gost llety a ddarperir gan awdurdod lleol ar gyfer y person dan sylw o dan Ran 3 o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948.

### NODYN YNGHYLCH GORCHMYNION CYCHWYN CYNHARACH

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Hwn yw'r Gorchymyn Cychwyn cyntaf i gael ei wneud gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p.14).

Mae'r Gorchmynion Cychwyn canlynol wedi cael eu gwneud o dan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p.14) o ran Cymru a Lloegr;

Gorchymyn Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (Cychwyn Rhif 1) 2008 (O.S. 2008/2214) (P.100).

Gorchymyn Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (Cychwyn Rhif 2) 2008 (O.S. 2008/2497) (P.106).

Gorchymyn Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (Cychwyn Rhif 3) 2008 (O.S. 2008/2717) (P.120).

Gorchymyn Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (Cychwyn Rhif 4) 2008 (O.S. 2008/2994) (P.129).

Gorchymyn Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (Cychwyn Rhif 5) 2008 (O.S. 2008/3137) (P.136).

Gorchymyn Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (Cychwyn Rhif 6, Darpariaethau Darfodol a Throsiannol) 2008 (O.S. 2008/3168) (P.143).

Gorchymyn Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (Cychwyn Rhif 7) 2008 (O.S. 2008/3244) (P.148).

Gorchymyn Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (Cychwyn Rhif 8) 2009 (O.S. 2009/270) (P.12).

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2009 Rhif 631(Cy. 57)(C.43)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2009

*Gwnaed* *11 Mawrth 2009*

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* *12 Mawrth 2009*

*Yn dod i rym* *6 Ebrill 2009*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 170(3) o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008([1]), yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

**Enwi a Chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2009.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

**Y Diwrnod Penodedig**

**2.** 6 Ebrill 2009 yw'r diwrnod penodedig ar gyfer dyfod i rym y darpariaethau canlynol o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 —

(a) adran 147 (diddymu atebolrwydd perthnasau am dâl cynnal);

(b) Atodlen 13 (darpariaethau trosiannol yn ymwneud ag adran 147); ac

---

(**1**) 2008 p.14)

(c) Rhan 5 o Atodlen 15 (diddymiadau a dirymiadau) ac adran 166 (diddymiadau) i’r graddau y mae’n ymwneud â’r Rhan honno.

*Gwenda Thomas*

O dan awdurdod y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

11 Mawrth 2009